
# Hyd, Pwysau / Mas a Chynhwysedd 3/4

Mae gan Sali ddarn o ruban sy'n 56cm o hyd. Mae Lona yn ei dorri'n ei hanner. Faint o ruban sydd gan Sali a Lona yr un?

Mae Sophie yn pwyso 200g o flawd i wneud crempogau. Mae'n colli hanner ohono ar y llawr ar ddamwain. Faint o flawd sydd ganddi ar ol?

Mae 1000ml o ddŵr yn y jwg. Mae Rhian yn arllwys 300ml allan o'r jwg. Faint o ddŵr sydd ar ol yn y jwg?




# Fhyd, Pwysau / Mas a Chynhwysedd 3/4

Mae gofalwr yr ysgol eisiau marcio sgwâr ar fuarth yr ysgol gyda phaent. Mae'n rhaid i bob ochr o'r sgwar fod yn 8 metr o hyd. Bydd pob tun o baent yn marcio 10 metr. Sawl tun paent fydd arno ei angen?

Bydd y silff lyfrau yn yr ystafell ddosbarth yn dal 40kg o bwysau. Rydyn ni eisiau rhoi 8 llyfr sydd yr un fath arni hi. Beth ydy'r pwysau mwyaf y gall llyfr fod?

Mae'r 37 plentyn yn nosbarth 2 yn mynd ar drip ysgol. Os ydy pob plentyn yn mynd a photel o ddŵr sy'n dal 2 litr faint o ddŵr fydd ar y bws?




# Hyd Pwysau / Mas a Chynhwysedd 3/4

Perimedr y cae pel-droed yw 340 metr. Hyd y cae yw 100 metr. Faint yw lled y cae?

Mae 3 llyfr yn pwyso 900 gram. Faint mae 1 llyfr yn ei bwyso?

Mae mam Rheon yn llenwi ei bwll nofio gyda 80 litr o ddŵr oer. Yna mae'n ychwanegu 55 litr o ddŵr cynnes. Yna nes ymlaen dim ond 93 litr o ddŵr sydd ar ôl. Faint o ddŵr sydd wedi gollwng o'r pwll?



# Hyd, Pwysau / Mas a Chynhwysedd 3/4

Mae ar Mr Richards y Pennaeth, angen rhoi ffens newydd o gwmpas yr ysgol. Mae gan yr hen ffens ddwy ochr sydd yn 45 metr o hyd a dwy ochr sydd yn ddwy waith hynny mewn hyd. Sawl metr o ffens fydd ei angen arno?

Mae 6 llyfr yn pwyso 1800 gram. Faint mae 1 llyfr yn ei bwyso?

Mae potel A yn dal 1500 ml o ddŵr. Mae potel B yn dal 950 ml o ddŵr. Faint yn fwy o fililitrau mae potel A yn dal na Potel B?

